

Ysgol Iolo Morganwg

Dadansoddiad o Holiadur Tymor yr Hydref 2011 Analysis of Parents' Questionnaire- Autumn 2011

Mae'r graff atodol yn dangos dadansoddiad o ymatebion rhieni i'r holiadur mwyaf diweddar (Tachwedd 2011)

Fe welwch fod canran uchel o rieni yn fodlon ac yn hapus iawn gyda'r ysgol. Mae'r mwyafrif o rieni yn cytuno'n gryf bod eu plant yn gwneud cynnydd da a chanran uchel naill ai'n cytuno'n gryf neu gytuno ar bob un agwedd. Diolchwn i chi am eich parodrwydd i ymateb a chynnig cyngor ac awgrymiadau ar sut allwn fynd ymlaen i wella gweithdrefnau'r ysgol.

Nododd rhai rhieni ansicrwydd am drefniadau cwynion. Yn fras, pe bai cwyn gennych cysylltwch â'r athro dosbarth yn gyntaf. Os dymunir, fe allwch gysylltu â'r pennaeth neu'r dirprwy. Dylai unrhyw gwyn yn erbyn y pennaeth, llywodraethwr neu'r corff llywodraethol ei chyfeirio at y cadeirydd/yddes fydd yn cymryd rôl y swyddog cwynion. Ceir polisi cwynion yr ysgol ar y wefan.

Roedd ychydig o ansicrwydd hefyd ymysg lleiafrif o rieni ynglyn a chymorth ychwanegol priodol. Bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni yn ystod nosweithiau rhieni pe bai angen unrhyw gymorth ychwanegol ar eich plentyn. Serch hynny, teimlwn ein bod yn ysgol agored iawn a phe bai angen trafod unrhyw fater 'rydym wastad yn barod i gwrdd a thrafod gofidion gyda chi.

Cofiwch, os oes unrhyw bryderon gennych am addysg eich plentyn yna cysylltwch â ni yn syth.

The attached graph shows the analysis of the parental responses following the most recent questionnaire (November 2011).

You will notice that a high percentage of parents are very satisfied and happy with the school. The majority of parents strongly agree that their children are making good progress and a high percentage of parents either strongly agree or agree on every aspect within the survey. Thank you very much to all who contributed and for your advice and suggestions. We use your evaluations to improve and develop the school's procedures.

Some parents noted their uncertainty regarding the school's complaints procedure. In brief, if you have a complaint, contact the class teacher in the first instance. You can also contact the headteacher or deputy if you wish to do so. Any complaint against the headteacher, governors or governing body should be referred to the chair who will take the complaints officer role. The school's complaints policy can be found on the school's website.

There was some uncertainty amongst a minority of parents regarding children receiving additional support in relation to any particular needs.

The school will notify parents during parents' evenings if we feel your child requires additional support. However, we feel that we are a very open school and if you feel we need to discuss any issues we are always prepared to meet with parents to discuss concerns.

If you have any concerns regarding your child's education at any time, please contact us immediately.